# Adroddiad Arolygu

**Fanw Mock**

**Caerffili**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

07/02/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Y gwasanaeth

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwarchodwr Plant |
| Lleoedd cofrestredig | 10 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 22 Tachwedd 2017 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Rhagorol** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Rhagorol** |
| **Yr Amgylchedd** | **Rhagorol** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Rhagorol** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn.

## Crynodeb


Mae'r plant yn hapus iawn ac yn mwynhau mynychu'r lleoliad. Maent yn teimlo'n ddiogel iawn yng ngofal y gwarchodwr plant. Mae'r plant yn cael cyfleoedd gwych i chwarae a dysgu ac i feithrin eu hannibyniaeth drwy amrywiaeth o brofiadau o ansawdd uchel.

Mae gan y gwarchodwr plant wybodaeth a dealltwriaeth ragorol ynghylch sut i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae hi'n amyneddgar, yn garedig ac yn ofalgar. Mae'r gwarchodwr plant yn cefnogi dysgu a datblygiad y plant drwy amrywiaeth eang o weithgareddau a gynlluniwyd sy'n seiliedig ar ddiddordebau ac anghenion datblygiadol y plant. Mae hi'n cadw cofnodion effeithiol o gynnydd y plant.

Mae'r amgylchedd yn ddiogel, yn lân, yn groesawgar ac mewn cyflwr da iawn. Mae amrywiaeth eang o deganau a chyfarpar yn hyrwyddo chwarae'r plant yn eithriadol o dda. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel a'i fod yn hybu iechyd a llesiant y plant.

Mae'r gwarchodwr plant yn rhedeg gwasanaeth rhagorol. Mae hi'n llawn cymhelliant, yn ymrwymedig, ac yn rhoi polisïau a gweithdrefnau ar waith sy'n adlewyrchu'r lefel ragorol o ofal a ddarperir ganddi. Mae hi'n hunanwerthuso'n effeithiol iawn i nodi gwelliannau a'u rhoi ar waith. Mae'r rhieni yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am brofiadau a datblygiad eu plentyn.

| **Llesiant** | **Rhagorol** |
|---|---|

Mae'r plant yn cael dewisiadau a chyfleoedd rhagorol i wneud penderfyniadau ynghylch sut yr hoffent dreulio eu hamser yng nghartref y gwarchodwr plant. Maent yn hyderus i gyfathrebu eu meddyliau a'u syniadau, am eu bod yn gwybod y bydd y gwarchodwr plant yn gwrando arnynt, yn dangos diddordeb, ac yn rhoi ystyriaeth iddynt. Er enghraifft, dywedodd y plant yn hyderus wrth y gwarchodwr plant beth yr hoffent ei wneud ar ôl dod yn ôl o'r ysgol.

Mae'r plant yn hapus iawn yn y lleoliad ac yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae'r plant yn cael budd o ethos teuluol cryf yng nghartref y gwarchodwr plant. Yn aml, bydd gŵr y gwarchodwr plant yn eistedd gyda hi a'r plant i fwynhau eu cinio â'i gilydd, gan ei wneud yn ddigwyddiad cymdeithasol. Mae'r plant yn mwynhau bod yng nghwmni eu ffrindiau o wahanol oedrannau, ac yn meithrin cyfeillgarwch sy'n eu helpu i deimlo'n fodlon. Mae'r plant wedi meithrin cydberthnasau agos â'r gwarchodwr plant, sy'n rhoi ymdeimlad o berthyn iddynt. Maent yn cael llawer o anogaeth a chanmoliaeth gan y gwarchodwr plant sy'n rhoi'r hyder iddynt chwarae, dysgu ac archwilio.

Mae'r plant yn gwneud ffrindiau yn unol â'u hoedran a'u cam datblygu. Maent yn chwarae'n hapus ochr yn ochr â'i gilydd neu gyda'i gilydd. Cawsom groeso cynnes gan y plant, a oedd yn gyffrous i siarad â ni ac i ddangos eu teganau. Dywedodd y plant eu bod yn mwynhau mynd i gartref y gwarchodwr plant, oherwydd *“she is so nice”* a *“my favourite thing to do here is craft, colouring and building with blocks.”* Mae'r plant yn dysgu parchu ei gilydd a'r adnoddau, drwy ddysgu i rannu a defnyddio cyfarpar yn briodol. Maent yn naturiol ystyriol o anghenion a chamau datblygu ei gilydd. Er enghraifft, wrth siarad â'r plant yn Gymraeg am eu profiadau yn nhŷ'r gwarchodwr plant, dywedodd un plentyn wrthym “*They can’t speak much Welsh yet, they’re only four. They’ll learn more as they get older.”*

Mae'r plant yn mwynhau'r chwarae a'r dysgu yn fawr iawn. Mae amrywiaeth rhagorol o adnoddau chwarae a dysgu sy'n briodol ar gyfer oedran y plant ar gael iddynt. Maent yn dewis o blith amrywiaeth o weithgareddau cyffrous a difyr. Gwelsom y plant yn mwynhau eu dysgu estynedig am y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd. Roedd y plant hŷn wedi mwynhau eu trafodaeth â'r gwarchodwr plant am y stori roeddent wedi bod yn ei darllen am hanes yr anifeiliaid sy'n gysylltiedig â'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd. Roeddent hefyd wedi mwynhau gwneud hetiau Tsieineaidd, yn barod i'w gwisgo pan fyddent yn blasu bwydydd Tsieineaidd yn ystod yr wythnos. Caiff y plant eu cymell i ddilyn eu diddordebau eu hunain ac i chwarae am gyfnodau o amser sy'n addas ar gyfer eu hoedran a'u cam datblygu.

Mae'r plant yn datblygu ystod eang o sgiliau wrth chwarae. Maent yn cael llawer o gyfleoedd i fod yn annibynnol. Gwelsom y plant ifanc yn cael eu hannog i wisgo eu hunain yn barod ar gyfer ysgol feithrin y prynhawn, gyda'r gwarchodwr plant yn cynnig anogaeth lle

y bo angen. Gall y plant hŷn fynd i'r ystafell ymolchi i fyny'r grisiau'n annibynnol i olchi eu dwylo ar ôl cael eu casglu o'r ysgol a chyn amser byrbryd.

| Gofal a Datblygiad | Rhagorol |
|---|---|

Mae gan y gwarchodwr plant ddealltwriaeth ragorol o'i rôl a'i chyfrifoldebau i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae ganddi bolisïau a mesurau arferion gofal cynhwysfawr ar waith er mwyn hybu lles yr holl blant yn ei gofal yn effeithiol. Mae ei hyfforddiant diogelu yn gyfredol, ac mae wedi sefydlu gweithdrefnau cadarn i ddiogelu'r plant. Caiff cofnodion o ddamweiniau, digwyddiadau a meddyginiaeth eu cwblhau'n fanwl a'u rhannu â'r rhieni er mwyn sicrhau y caiff anghenion iechyd y plant eu monitro'n glir. Mae arferion hylendid effeithiol ar waith gydag arferion golchi dwylo a diheintio rheolaidd. Mae'r broses newid cewynnau yn rhagorol ond nid yw wedi cael ei ffurfioli drwy bolisi newid cewynnau. Mae'r gwarchodwr plant yn rhoi cyfleoedd bob dydd i'r plant gael awyr iach drwy amrywiaeth o weithgareddau, gan gynnwys sesiynau chwarae awyr agored ar ôl ysgol.

Mae'r gwarchodwr plant yn mabwysiadu dull pwyllog a chadarnhaol o reoli ymddygiad y plant ac mae'n frwdfrydig ac yn garedig wrth ryngweithio â nhw. Mae hi'n defnyddio ei phrofiad a'i hyfforddiant i roi ei pholisi rheoli ymddygiad ar waith i safon uchel iawn. Mae hi'n cynnig canmoliaeth ac anogaeth yn aml, ac mae hi'n fodel rôl ardderchog i'r plant. Mae'r plant yn bwyta eu cinio wrth y bwrdd gyda'r teulu a chânt eu hannog i siarad am eu gweithgareddau. Mae’r gwarchodwr plant yn dangos diddordeb a phleser ym mhopeth y mae'r plant yn ei wneud, ac mae’r plant yn awyddus i rannu eu dysgu a'u gwaith â hi. Er enghraifft, pan roedd y plant hŷn yn gwneud gweithgaredd crefft, gwelsom y gwarchodwr plant yn dangos diddordeb mawr yn y ffigyrau antur yr oedd plentyn iau yn chwarae â nhw.

Mae gan y gwarchodwr plant ddull cynllunio hynod effeithiol ar waith. Mae hi'n cadw cofnod o gynnydd y plant ac yn cynllunio gweithgareddau er mwyn cefnogi eu datblygiad. Mae'r plant yn dewis deunyddiau crefft a gweithgareddau yn annibynnol o gatalog ar gyfer eu themâu a'u pynciau. Maent yn cael budd o weithgareddau crefft a phlannu hadau rheolaidd a chaiff y plant hŷn eu hannog i ddatblygu eu chwilfrydedd drwy arbrofion gwyddonol. Mae'r gwarchodwr plant yn cymryd ffotograffau yn rheolaidd yn ystod ymweliadau a theithiau. Mae'r rhain yn dangos y plant yn mwynhau ystod eithriadol o eang o weithgareddau sy'n cwmpasu pob maes dysgu. Mae'r gwarchodwr plant yn hyrwyddo'r Gymraeg. Gwnaethom ei chlywed yn defnyddio geiriau ac ymadroddion Cymraeg yn aml er mwyn ehangu geirfa'r plant.

## Yr Amgylchedd Rhagorol

Mae'r amgylchedd yn ddiogel, yn groesawgar ac mewn cyflwr rhagorol. Mae'r fynedfa yn ddiogel am fod y gwarchodwr plant yn sicrhau bod y drws ffrynt ar glo, a dim ond pobl awdurdodedig a all ddod i mewn. Mae hi'n cadw cofrestr o'r plant sy'n mynychu ac ymwelwyr â'r lleoliad, gan nodi'r amseroedd hefyd. Mae'r asesiadau risg sydd ar waith yn hynod o effeithiol a chynhwysfawr. Mae'r tystysgrifau diogelwch yn gyfredol, gan gynnwys dogfennau gwasanaethu'r boeler nwy, profion trydanol, a gwiriadau diogelwch tân. Mae'r gwarchodwr plant yn cynnal ymarferion tân yn rheolaidd ac yn nodi unrhyw feysydd i'w gwella. Mae hi'n goruchwylio'r plant yn eithriadol o dda. Mae digon o le a chyfleusterau addas i ddiwallu anghenion pob plentyn sy'n mynychu. Mae'r ardaloedd chwarae dan do yn groesawgar ac yn cynnig cyfleoedd gwych i ehangu chwarae a dysgu'r plant.

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod gan y plant ardal chwarae dan do helaeth sy'n addas ar gyfer eu hanghenion. Caiff adnoddau eu storio mewn ffordd sy'n galluogi'r plant i ddewis eu teganau'n annibynnol. Mae lle storio ychwanegol ar gael gydag amrywiaeth eang o adnoddau ychwanegol y gall y plant gael gafael arnynt yn annibynnol, gydag ychydig o gymorth gan y gwarchodwr plant. Caiff gwaith celf y plant ei arddangos, sy'n dathlu eu cyflawniadau, gan roi ymdeimlad o falchder a pherthyn iddynt. Mae gan y gwarchodwr plant gynlluniau i ddatblygu'r ardal awyr agored ymhellach dros y misoedd nesaf i ddod. Mae cytundeb ar waith rhwng y gwarchodwr plant a'r ysgol gynradd Gymraeg leol sy'n golygu y gall y plant ddefnyddio ardal chwarae antur awyr agored yr ysgol bob dydd ar ôl i'r ysgol orffen.

Mae adnoddau ar gael i'r plant sy'n adlewyrchu cymdeithas amlddiwylliannol, amlgenhedlaeth, a hollgynhwysol. Caiff amrywiaeth rhagorol o adnoddau eu darparu er mwyn hyrwyddo holl feysydd datblygu'r plant, gan gynnwys doliau, posau, ffigyrau antur ynghyd ag adnoddau amlddiwylliannol gan gynnwys llyfrau Cymraeg a Saesneg. Maent yn dathlu gwyliau o wahanol ddiwylliannau fel Diwrnod Santes Dwynwen, y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd, Dydd Sul y Cofio a Dydd Gŵyl Dewi. Mae hyn yn rhoi cyfleoedd gwych i'r plant ddysgu am eu diwylliannau eu hunain a diwylliannau pobl eraill. Mae'r gwarchodwr plant yn mynd â'r plant i grwpiau dyddiol yn y gymuned leol megis grŵp cerddoriaeth, chwarae meddal i blant bach ynghyd ag ymweliadau â'r llyfrgell leol. Mae hyn yn rhoi ymdeimlad i'r plant o'r byd o'u cwmpas. Caiff yr adnoddau a'r cyfarpar eu cynnal a'u cadw'n dda iawn, ac maent o ansawdd da iawn. Mae'r holl ddodrefn ar lefel sy'n addas ar gyfer y rhan fwyaf o'r plant sy'n mynychu. Mae cyfleusterau toiled glân a threfnus ar gael i'r plant ac mae'r dodrefn yn briodol ar gyfer eu hoedran.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Rhagorol

Mae'r gwarchodwr plant yn arwain gwasanaeth rhagorol. Mae ganddi weledigaeth glir i wneud yn siŵr bod ei gwasanaeth, sydd eisoes yn neilltuol, yn datblygu'n barhaus fel bod y plant yn hapus, yn fodlon ac yn annibynnol, mewn amgylchedd croesawgar a gofalgar. Mae hi'n hynod drefnus, ac mae'r polisïau, y gweithdrefnau a'r cofnodion o safon uchel iawn. Mae ganddi ddealltwriaeth glir iawn o'i chyfrifoldebau, a sut mae'r safonau gofynnol cenedlaethol a'r rheoliadau yn ei chefnogi i gadw'r plant yn ddiogel a hyrwyddo eu dysgu. Mae datganiad o ddiben trylwyr ar waith sy'n rhoi darlun cywir o'r ffordd y caiff y gwasanaeth ei weithredu. Mae gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi cael eu cwblhau ar gyfer pob person dros 16 oed sy'n byw yn ei chartref.

Mae'r gwarchodwr plant yn ymgynghori â'r rhieni, y plant, a gweithwyr proffesiynol er mwyn cael eu hadborth ar gyfer ei hadolygiad blynyddol o ansawdd y gofal yn ei gwasanaeth. Mae'r ymgyngoriadau hyn yn ystyrlon ac yn arwain at welliannau i'w gwasanaeth, megis newid y ffordd y mae'n cyfathrebu â'r rhieni, yn unol â'u hadborth. Mae hi'n adolygu ei pholisïau yn rheolaidd fel eu bod yn gyson â deddfwriaeth newydd. Mae hi'n adolygu ei gwasanaeth yn weithredol fel ei fod yn ddiogel i'r plant, ac mae hi'n ymdrechu i wella yn gyson.

Mae'r gwarchodwr plant yn hyrwyddo arferion gorau cyfredol sy'n berthnasol i'r plant yn ei gofal mewn ffordd effeithiol. Mae hi'n ymrwymedig i hyrwyddo ei datblygiad proffesiynol yn barhaus ac mae hi wedi mynychu amrywiaeth eang o hyfforddiant er mwyn ei helpu i wella ei gwybodaeth ymarferol a'i harferion. Caiff hyn effaith gadarnhaol, er enghraifft, gwella ei hyder wrth gefnogi dysgu dan arweiniad y plentyn.

Mae'r gwarchodwr plant wedi meithrin cydberthnasau rhagorol â'r rhieni a gweithwyr proffesiynol, ac mae'n ffurfio partneriaethau gwerthfawr yn y gymuned leol sy'n gwella ansawdd y ddarpariaeth a chanlyniadau i'r plant. Mae'r gwarchodwr plant yn hysbysu'r rhieni a'r gofalwyr yn dda iawn am yr hyn y mae eu plant yn ei ddysgu a'u cynnydd pan fyddant yn gollwng ac yn casglu eu plant. Dywedodd y rhieni y gwnaethom siarad â nhw yn ystod yr arolygiad wrthym eu bod yn eithriadol o fodlon ar y gwasanaeth a ddarperir. Dywedodd un rhiant wrthym, fel teulu, na fyddai modd iddynt gael y bywyd teuluol sydd ganddynt oni bai am y gwarchodwr plant a'r gefnogaeth y mae'n ei dangos iddynt.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| Safon 10 - Gofal Iechyd | Sicrhau bod polisi newid cewynnau ar waith. |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 02/04/2024